**Beirniadaeth Cystadleuaeth 340**

**Barddoniaeth Bl.7 : Newid**

**Beirniad: Mared Fflur Jones**

Diolch i'r ugain o gystadleuwyr am fynd ati i gystadlu a gobeithio y bydd y profiad yn ysbrydoli rhai ohonoch i ddal ati. Cafwyd nifer o ddehongliadau gwahanol o beth oedd 'newid' ac roedd hyn yn braf i weld. Fe wnaeth y mwyafrif ddisgrifio'r newid rhwng tymhorau neu newidiadau o fewn ein bywydau e.e. tyfu, dechrau ysgol newydd. Llwyddodd rhai i ymateb i'r testun yn wreiddiol iawn gan ddisgrifio taith ar hyd Cymru a'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd, ac roedd un yn dychmygu ei fod wedi newid i fod yn George Best! Mae'r tri a ddaeth i'r brig yn dri sy'n llwyddo i blethu gwreiddioldeb a dawn dweud er mwyn creu cyfanwaith aeddfed a gorffenedig.

**3ydd - *Mefus Melys***
Er fod *Mefus Melys* yn trafod newid y tymhorau fel amryw i gystadleuydd arall, llwydda'r bardd i gyfleu'r newid yma trwy ganolbwyntio ar fyd natur yn unig, yn enwedig coed a blodau. Mae llawer o gyffyrddiadau da yma megis 'coed yn gwisgo'u cotiau deiliog'. Mae'r cyferbyniad amlwg rhwng brigau'r coed ar ddechrau'r gerdd a'r diwedd hefyd yn effeithiol iawn: ' A'r blagur gwyrdd yn gwthio trwy'r brigau / Cysgodion gaeafol fel bysedd hir'.

**2il - *Mared***
Llwydda *Mared* i greu darlun byw o fywyd yng Nghapel Celyn cyn y boddi gan apelio ar ein synhwyrau a disgrifio'r hyn oedd i'w weld a'i glywed yno. Cyfeiria at enwau ffermydd a gollwyd sy'n ychwanegu at brofiad y darllenydd a'n hatgoffa mai atgofion pobl go iawn sydd yma. Mae yma linellau cofiadwy iawn megis 'Y Gymraeg fel blanced dros y cwm' ac fe geir defnydd effeithiol o eironi yma hefyd 'Mynyddoedd yn estyn i'r awyr fel breichiau cadarn, Yn gwarchod pawb a'i fro'. Caiff 'popeth' ei ailadrodd ar ddiwedd y gerdd yn effeithiol er mwyn darlunio'r hyn a gollwyd. Yn bersonol, nid oeddwn yn teimlo fod angen y ddwy linell olaf gan fod hyn yn tynnu oddi ar gryfder yr ailadrodd - mae'n well dweud llai weithiau a chaniatau i'r darllenydd gael lle i feddwl.

**1af - *Fishlock***
Dyma'r bardd mwyaf aeddfed yn y gystadleuaeth ac mae'n ymdrin â thema heriol ond cyffredin i nifer o bobl sef gwylio aelod o'r teulu yn ymgodymu gyda Dementia/Alzheimer's. Ar ddechrau'r gerdd cawn ddarlun o sut oedd Mamgu cyn y salwch: 'Ddoe, yng ngwres tanbaid yr haf, roedd gardd Mam-gu yn balet paent o liw'. Caiff yr ardd a'r tymhorau eu defnyddio'r gelfydd i ddarlunio sut mae'r cyflwr yn effeithio ar fywyd Mamgu: 'Heddiw, mae hi'n aeaf yn yr ardd. Llwydda'r bardd i bentyrru cyffelybiaethau trwy gydol y gerdd, er teimlwn efallai fod gormodedd ar brydiau. Mae'r berthynas agos rhwng Mamgu a'r prif

gymeriad yn amlwg trwy gydol y gerdd hefyd a gwelwn effaith y salwch ar y teulu agosaf. Mae nodyn gobeithiol tua diwedd y gerdd lle 'daw'r haf yn ei ôl am ychydig bach'.

**Sylwadau Cyffredinol**

Llwyddodd y cystadleuwyr i ymateb i'r testun yn dda a phawb yn cadw'n driw at y dehongliad yr oedden nhw wedi ei ddewis ac yn ceisio bod yn wreiddiol gyda'i dehongliad ei hunain. Roedd ymdrechion cadarn gan nifer i ddefnyddio mydr ac odl yn effeithiol yn eu cerddi. Er hyn teimlwn fod yr ymgais i geisio odli yn straen ar rhai cerddi ac roedd tueddiad gan rhai i ysgrifennu llinellau hirion oedd yn golgyu fod y cerddi'n darllen mwy fel stori yn hytrch na cherdd. Buaswn yn annog pawb i ddarllen eu cerddi allan yn uchel gan fod hyn yn aml yn helpu i rhywun sylwi os ydi'r rhythm neu odl yn gweithio. Gwelwyd defnydd effeithiol o nifer o dechnegau arddull megis cyffelybiaethau ac ailadrodd ond mae'n bwysig hefyd nad ydych yn dibynnu ar yr un math o dechneg bob tro - mae defnyddio amrywiaeth ohonynt yn fwy diddorol i'r darllenydd.